

Adroddiad Cynghorydd mis Mawrth

1) Bu 40 o drigolion y Felinheli yn trafod a chynllunio dulliau o sicrhau fod y cyflenwad tai yn ein pentref yn gweithio o blaid pobl leol a ffyniant y Gymraeg. Trefnwyd y cyfarfod gan hunaniaith ar ran Cyngor Cymuned y Felinheli a Grwp Iaith y Felinheli.

2) Y Cynllun Datblygu Lleol

Y Felinheli

- Nid oes ymestyn i ffin y pentref ac mae'r tir rhwng Tyddyn Perthi a'r Wern wedi ei dynnu allan o'r ffin.
- Lefel Twf : 19 o aneddeleodd
- Unedau wedi eu cwblhau (2011-14): 51
- Banc Tir presennol : 69
- Nifer ychwanegol sydd eu hangen: 0
- Mae hyn yn golygu nad oes tiroedd newydd yn cael eu clustnodi ar gyfer stadau'r farchnad agored yn Felinheli
- Ond os bydd prawf o angen lleol, fe ellid codi tai fforddiadwy ar ffin y pentref.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft diweddaraf o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi dechrau. Gall pobl leol gymryd rhan drwy ymweld â gwefan y Cyngor, llyfrgelloedd y sir neu swyddfeydd y Cyngor.

Unwaith bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu, dyma fydd y sail ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan y ddau awdurdod yn y dyfodol. Bydd y cynllun yn gosod fframwaith polisi cynllunio ar gyfer defnydd tir hyd at 2026 yn unol a'r dystiolaeth gyflwynwyd gan sawl ffynhonnell, yn cynnwys cymunedau lleol.

Bydd Ymgynghoriad y Cynllun Adnau yn rhedeg hyd 5pm ddydd Mawrth, 31 Mawrth 2015. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu a bydd adroddiad yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn ymateb i'r materion a godwyd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i'r Archwiliad Cyhoeddus. Yn dilyn hyn, mae bwriad mabwysiadu'r CDLIC yn Rhagfyr 2016.

I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, dylai pobl ymweld â [gwefan y Cyngor](#), ble ceir ffurflen sylwadau, porth sylwadau a chanllawiau ymgynghoriad.

Am fwy o wybodaeth, ac i brynu copïau papur o'r dogfennau ymgynghorol, cysylltwch â Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn:

- Cyfeiriad – Llawr Cyntaf, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT
- Ffôn - 01286 685003 or 01766 771000
- e-bost – polisicynllunio@gwynedd.gov.uk